Y Bwrdd Taliadau

# Penderfyniad ar y cynnig i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gweithredu'r adolygiad o gyflogau a graddfeydd staff

**21 Ionawr 2026**

## Cefndir

Mae'n ofynnol i Aelodau sy'n bwriadu sefyll i gael eu hethol i'r Seithfed Senedd adolygu rolau a chyflogau eu gweithwyr yn unol â'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi newydd erbyn diwedd y Chweched Senedd er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr yn dechrau ar y fframwaith newydd o ddechrau'r Seithfed Senedd (fel y nodir yn yr Atodiad i'r **Penderfyniad**).

Yn dilyn sylwadau ynghylch yr heriau o weithredu'r fframwaith cyflogau a graddfeydd staff cymorth newydd cyn dechrau tymor y Seithfed Senedd, cynhaliodd y Bwrdd ymgynghoriad rhwng 22 Rhagfyr 2025 a 16 Ionawr 2026 ar y cynnig i ymestyn y cyfnod gweithredu i 30 Mehefin 2026.

## Penderfyniad

Cyfarfu'r Bwrdd ar 21 Ionawr 2026 i drafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Penderfynodd y Bwrdd ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gweithredu'r fframwaith i 30 Mehefin 2026[1].**

---

[1] Mae penderfyniad y Bwrdd ar 21 Ionawr 2026 yn 'benderfyniad eithriadol' gan fod y Bwrdd wedi gwneud penderfyniad yn flaenorol ynghylch cymorth staffio ar gyfer 2026-27 ar 10 Gorffennaf 2025. Mae Adran 14 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn nodi, lle mae'r Bwrdd wedi gwneud penderfyniad sy'n ymwneud ag ad-dalu costau a yr eir iddynt gan Aelodau wrth gyflogi staff, na all y Bwrdd addasu'r penderfyniad hwnnw mewn perthynas ag unrhyw gyfnod cyn diwedd y flwyddyn ariannol y daw'r penderfyniad hwnnw i rym am y tro cyntaf, oni bai bod y Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn deg ac yn rhesymol gwneud hynny. Rhaid i'r Bwrdd gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn nodi ei resymau dros wneud penderfyniad eithriadol.

Fel y nodir yn y llythyr ymgynghori at Aelodau, cadarnhaodd y Bwrdd y canlynol hefyd:

- Ni fydd y ddarpariaeth o £1,275 fesul Aelod ar gyfer cymorth arbenigol allanol, fel y nodir yn y Penderfyniad ar gyfer 2025-26, yn cael ei hymestyn y tu hwnt i 31 Mawrth 2026.
- Dim ond ar ôl i gytundeb gael ei gytuno rhwng yr Aelod sy'n cyflogi a'i staff y gall newidiadau cyflog i staff cymorth ddechrau, a rhaid i hyn ddigwydd cyn y dyddiad cau o 30 Mehefin. Y dyddiad cynharaf y gellir talu cyflogau newydd yw 7 Mai, sef pryd y daw'r fframwaith newydd i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.
- Os nad yw Aelodau sy'n dychwelyd wedi cwblhau'r broses hon gyda'u staff erbyn 30 Mehefin, ni fyddant yn gallu hawlio cyflogau staff o dan yr hen fframwaith ar ôl y dyddiad hwnnw; felly bydd yr Aelodau'n atebol yn bersonol am dalu unrhyw gyflogau os na chaiff y dyddiad cau hwn ei fodloni.
- Rhaid recriwtio'r holl aelodau staff newydd a gaiff eu recriwtio yn y Seithfed Senedd yn unol â'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi a'r fframwaith cyflogau a graddfeydd newydd.

## Y Camau Nesaf

Cynghorir pob Aelod sy'n sefyll i gael ei ail-ethol i ymgysylltu â Chomisiwn y Senedd cyn gynted â phosibl er mwyn deall y broses yn well a dechrau'r gwaith paratoi.

Lle mae gan Aelodau neu eu staff bryderon penodol ynghylch gweithredu'r fframwaith neu ganlyniad posibl, deellir bod y rhai sydd wedi ymgysylltu'n rhagweithiol wedi cael cyngor a sicrwydd a bod llawer wedi cydnabod manteision y dull newydd.

Ni fyddai'r Bwrdd yn dymuno gohirio na dadwneud unrhyw gynnydd neu waith a wnaed hyd yma gan yr Aelodau hynny sydd wedi bod yn gweithio yn ôl y dyddiad cau gwreiddiol; anogir Aelodau, felly, i barhau i fwrw ati a chwblhau'r gwaith hwn yn barod i'w roi ar waith o ddechrau'r Seithfed Senedd, lle bo modd.

Mae'r Bwrdd yn croesawu'r cynnydd o ran cytuno ar drefniadau staffio a wnaed gan lawer o Aelodau. Bydd cwblhau'r broses hon yn gynnar cyn dechrau'r Seithfed Senedd yn galluogi staff a gyflogir gan Aelodau sy'n dychwelyd i gael eu talu ar y fframwaith newydd o ddechrau tymor newydd y Senedd.

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafodd y Bwrdd wyth ymateb i'r ymgynghoriad ac roedd saith yn cefnogi estyniad i'r dyddiad cau (ni wnaeth un ohonynt sylw ar y cynnig yn benodol).

Cafwyd ymatebion gan Grŵp Llafur Cymru, Grŵp Plaid Cymru, Comisiwn y Senedd, undeb Unite, cangen PCS Plaid Cymru, Paul Davies AS, Russell George AS a Mike Hedges AS.

### Dyddiad cau estynedig arfaethedig

Croesawodd Grŵp Plaid Cymru yr estyniad arfaethedig a nododd fod y gwaith sylweddol a wnaed i ddiweddaru fframwaith cyflogau a graddfeydd staff yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i Aelodau fel cyflogwyr i bennu rolau a chyflogau'r rolau hynny yn eu swyddfeydd, tra hefyd yn rhoi fframwaith sy'n nodi disgwyliadau cliriach, ac yn sicrhau gwell cysondeb a thegwch i weithwyr o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Yn ei ymateb, croesawodd Grŵp Llafur Cymru yr estyniad arfaethedig ond awgrymodd y dylai'r Bwrdd ystyried estyniadau unigol mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft, lle mae unigolion ar absenoldeb salwch neu absenoldeb tosturiol. Cydnabu'r Bwrdd y pryderon hyn, a nododd y gellid ystyried ceisiadau unigol am estyniad mewn amgylchiadau eithriadol drwy'r ddarpariaeth 'costau eithriadol' yn y Penderfyniad.

Roedd Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r estyniad arfaethedig. Tynnodd sylw hefyd at y risgiau i Aelodau pe na byddent yn bwrw ymlaen â'r cam gweithredu mewn modd amserol, o ystyried y gallai rhai staff cymorth sy'n ymgymryd â rolau tebyg gael eu talu ar fandiau gwahanol ac, os na fydd y dyddiad cau yn cael ei fodloni, byddai'r Aelod yn atebol yn bersonol i dalu cyflogau am gyfnod. Awgrymodd y Comisiwn y gallai'r Bwrdd ystyried ymestyn y dyddiad cau i fis Gorffennaf neu fis Awst 2026 er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd. Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth ofalus i'r manteision o'i ymestyn i doriad yr haf. Ar ôl myfyrio ar y mater, barn y Bwrdd oedd bod y cynnig o 30 Mehefin yn rhoi digon o amser ar gyfer rhywbeth a ddylai fod yn ymarfer syml i'r rhan fwyaf o'r Aelodau ac yn derfyn amser pendant i gwblhau'r gwaith, gan gydnabod y gallai fod rhai achosion eithriadol fel y nodwyd uchod.

Cefnogwyd yr estyniad arfaethedig gan Gangen Plaid Cymru PCS, Undeb Unite, Paul Davies AS a Russell George AS.

## Materion eraill a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad

Cododd Grŵp Plaid Cymru, Grŵp Llafur Cymru, Cangen Plaid Cymru PCS, undeb Unite, a Mike Hedges AS bryderon ynghylch y risg o **'ddiswyddo ac ail-gyflogi'** o ganlyniad i'r adolygiad cyflogau a graddfeydd.

Mae'r Bwrdd o’r farn y dylai'r broses hon i adolygu cyflogau a graddfeydd fod yn adeiladol ac anogir Aelodau i gynnwys eu staff drwy gydol y broses. Rhagwelir, yn dibynnu ar benderfyniadau cyflogaeth Aelodau, y bydd y fframwaith newydd yn gweld canlyniad cadarnhaol i'r rhan fwyaf o weithwyr. Rhagwelir, felly, y dylai'r broses fod yn syml i'r rhan fwyaf o Aelodau a gweithwyr.

Nid yw'r Bwrdd yn cefnogi 'diswyddo ac ail-gyflogi' ac mae’n cydnabod nad yw'n cael ei argymell fel arfer cyflogaeth dda. Fodd bynnag, mater i gyflogwyr unigol yw'r dull a'r opsiynau a gymerir gan Aelodau, gan gynnwys a ddylid diystyru neu ystyried 'diswyddo ac ail-gyflogi'.

Mae'r Bwrdd wedi croesawu cytundeb Grŵp Plaid Cymru gyda changen Plaid Cymru PCS y bydd yr Aelodau'n bwrw ymlaen â'r cam gweithredu ac wedi ymrwymo fel grŵp i beidio â defnyddio dull diswyddo ac ail-gyflogi yn y broses ar bwynt o egwyddor.

Er nad yw gweithredu'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi yn ymarfer ailstrwythuro, mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai rhai Aelodau fod eisiau ailstrwythuro eu staff ar ôl yr etholiad. Pe bai Aelodau'n gweithredu'r fframwaith ar gyfer dechrau'r Seithfed Senedd, gall Aelodau ailstrwythuro ar unrhyw adeg o hyd. Mae'r Penderfyniad yn darparu ar gyfer gwneud taliadau diswyddo (yn daladwy drwy gyllideb staffio Aelod) os nad oes angen rôl/rolau mwyach.

Tynnodd Grŵp Llafur Cymru ac undeb Unite sylw at y pryderon penodol ynghylch y risg o ddiswyddo ac ail-gyflogi i'r **Uwch Gynghorwyr a oedd yn weithwyr achos neu'n rheolwyr swyddfa**, gan fod y band Uwch Gynghorwyr yn y fframwaith newydd yn berthnasol i'r Teuluoedd Swyddi Cyfathrebu a Pholisi ac Ymchwil yn unig. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi cael gwybod bod rolau Uwch Gynghorwyr presennol yr Aelodau eisoes yn cyd-fynd â’r disgrifiadau swyddi ar gyfer Uwch Gynghorwyr. Mae'r Bwrdd yn deall bod gan yr Aelodau dimau bach a bod rhai staff yn ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau. Mae'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi yn rhoi hyblygrwydd felly i Aelodau ddynodi rolau 'hybrid', y rolau hynny sy'n cwmpasu mwy nag un teulu swyddi, ac felly gellid rhoi staff sy'n ymgymryd â rhywfaint o waith achos neu ddyletswyddau gweinyddu swyddfa ar fand Uwch Gynghorydd os yw eu dyletswyddau sylweddol yn cynnwys gwaith cyfathrebu, polisi neu ymchwil uwch.

Roedd nifer o ymatebion yn sôn eto am **bryderon blaenorol ynghylch yr effaith bosibl ar staff Band 3**, o ystyried bod y pwynt cyflog uchaf (3) ar y fframwaith newydd yn is na'r pwynt cyflog uchaf presennol (5).

Mae'r Bwrdd a'r fframwaith newydd yn cydnabod y rôl bwysig y mae staff Band 3 yn ei chyflawni, ar draws pob teulu swyddi. Mae cyflogau yn y fframwaith newydd wedi cael eu meincnodi'n annibynnol yn erbyn marchnad swyddi Cymru, a gadarnhaodd fod y cyflog uchaf ym Mand 3 yn uwch na'r gyfradd farchnad gymharol ar gyfer rolau tebyg. Mae Band 3 yn y fframwaith newydd yn cynnwys cynnydd cyflymach, cynyddrannau cyflog uwch a chyflogau pwynt cyflog uwch o'i gymharu â phwyntiau cyflog Band 3 1-4 ar hyn o bryd.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y rhai sydd ar ben uchaf y Band. Mae wedi ceisio lliniaru'r effaith bosibl ar staff yr effeithir arnynt gan bennu amddiffyniad cyflog o hyd at ddwy flynedd ar gyfer staff sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar bwynt cyflog 5 ac sy'n parhau ar Fand 3 yn dilyn yr adolygiad.

Cododd Paul Davies AS bryderon ynghylch **Aelodau'n cael eu 'gorfodi' i weithredu fframwaith anhyblyg** ac mae'r Bwrdd wedi clywed pryderon tebyg yn anffurfiol, ac y dylai Aelodau fel cyflogwyr unigol gael mwy o ddisgresiwn. Fel y nodwyd uchod, mae'r fframwaith newydd yn rhoi cryn dipyn o hyblygrwydd i gydnabod rolau hybrid o fewn swyddfeydd yr Aelodau.

Amcanion y Bwrdd yw gosod fframwaith cyflogaeth sy'n llywodraethu sut y gellir defnyddio arian cyhoeddus gyda gonestrwydd a hyrwyddo gwerth am arian, gan geisio cydbwysedd priodol rhwng hyblygrwydd i Aelodau, sicrhau bod cyflogau staff cymorth yn adlewyrchu eu lefel cyfrifoldeb yn deg, ac annog cysondeb o ran cyflogau a chydnabyddiaeth gan Aelodau, ac osgoi anghydraddoldebau cyflog annheg ymhlith y rhai ar yr un lefel swydd.

Mae'r fframwaith newydd, sy'n cyflwyno teuluoedd swyddi, yn ddull sydd wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn Senedd y DU a Senedd yr Alban ers peth amser. Mae'r Bwrdd hefyd yn ceisio darparu mwy o hyblygrwydd i Aelodau fel cyflogwyr, fel y nodir yn y cynigion ymgynghori presennol ar y Penderfyniad Drafft ar gyfer y Seithfed Senedd.

Mae'r Bwrdd yn gofyn am farn yr Aelodau fel cyflogwyr yn anffurfiol yn rheolaidd drwy sesiynau galw heibio, cyfarfodydd grŵp Cynrychiolwyr yr Aelodau a thrwy brofi cynigion, er enghraifft, cafodd y fframwaith dosbarthu swyddi newydd ei dreialu gyda nifer o gynrychiolwyr Aelodau a staff. Mae'r Bwrdd hefyd yn ceisio barn Aelodau fel cyflogwyr yn ffurfiol drwy ymgynghoriadau.

Roedd y Bwrdd hefyd yn gefnogol i gynigion diweddar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i sefydlu fforwm cyflogwyr ar gyfer Aelodau a'u staff a allai, pe bai'n cael ei weithredu, ystyried a hyrwyddo arferion a safonau cyflogaeth da a chynnig fforwm i bryderon staff ynghylch materion gweithredu gael eu hystyried ar y cyd.